Busnes@ LlandrilloMenai

Prentisiaethau Apprenticeships

ESF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Cyrsiau Proffesiynol - Diwrnodau Ymwybyddiaeth

cipd

association for project management
apm Corporate Member

Diddordeb mewn ennill cymhwyster proffesiynol yn y gwaith?

Mae ein Prentisiaethau Uwch yn rhoi cyfle i chi yrru eich dyfodol yn ei flaen drwy roi cyfle i chi ennill arian tra'ch bod yn dysgu a rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i allu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'ch cyflogwr.

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Prentisiaethau Uwch wedi'u hariannu'n llawn. Rydym yn cynnal cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yng Ngholeg Llandrillo i ddysgwyr posibl ennyn gwell dealltwriaeth am y Prentisiaethau Uwch hynny sy'n dechrau ym mis Medi 2016.

Arloesi a Thwf ym maes Busnes Lefel 5 - dydd Iau, 30 Mehefin:9.30-12.30pm

Bydd y Brentisiaeth Uwch hon yn eich helpu i ganfod a rhoi syniadau a phrosesau arloesol ar waith fel bod eich cyflogwr yn gallu cystadlu a thyfu mewn amgylchedd busnes dynamig. Dyluniwyd y cwrs i weithio ar draws ystod eang o sefydliadau o unrhyw faint yn y sector breifat, y sector gyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd swyddi yn amrywio yn ôl natur a maint y sefydliad, mae enghreifftiau o'r swyddi posib yn cynnwys:

- *Rheolwr Datblygu Cynnyrch - creu a phrofi syniadau, adolygu prosesau, ymchwilio gwahanol gynnyrch a marchnadau*
- *Rheolwr Datblygu Busnes - cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyfleoedd busnes newydd a chynnyrch newydd*
- *Rheolwr Prosiect- ymchwilio, cynllunio, gweithredu a monitro prosiectau*

Beth bynnag yw eich rôl, byddwch yn dysgu am y ffyrdd gwahanol y mae sefydliadau yn arloesi ac yn tyfu.

Rheoli ym maes Adnoddau Dynol Lefel 5 - dydd Iau, 30 Mehefin: 1.00-3.00pm

- *Os ydych yn rheoli ym maes Adnoddau Dynol yn eich sefydliad bydd y Brentisiaeth Uwch hon yn cynnig rhaglen hyfforddi gynhwysfawr wedi'i strwythuro. Fe'i dyluniwyd i'ch cyflwyno i amrywiaeth o feysydd gwahanol o fewn maes AD, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:*
- *Ymarfer proffesiynol ym maes Adnoddau Dynol*
- *Canfod Talent a Chynllunio ar gyfer hynny*
- *Rheoli Perfformiad*
- *Cyfraith Cyflogi*

Rheoli Prosiect - Lefel 4 - dydd Gwener, 15 Gorffennaf: 9.30-2.30pm

Dyluniwyd ein Prentisiaeth Uwch mewn Rheoli Prosiect i ddatblygu prentisiaid i fod yn arweinwyr prosiect hyderus a galluog sydd â'r wybodaeth a'r profiad i gynllunio, cyflawni a dadansoddi llwyddiant. Mae'r pynciau yn cynnwys meysydd megis, nodi sgôp y prosiect, cyfathrebu mewn prosiect, rheoli risg ac ansawdd. Rhaid i'r dysgwr fod â phrosiect byw i fynd ymlaen.

I wybod mwy am sut i wneud cais ffoniwch 08445 460460.
Anfonwch neges e-bost: prentisiaethau@gllm.ac.uk neu ewch i'n gwefan:
www.gllm.ac.uk/prentisiaethau